Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gwybodaeth i ymgeiswyr

# Cyngor y Gweithlu Addysg

# Penodi aelodau

Dyddiad cau
31 Hydref 2022 am 16:00

The Commissioner for Public Appointments

# Cynnwys


Swyddi gwag ar gyfer aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg .................................... 2
Ffeithiau allweddol am y swyddi......................................................................... 2
Amserlen fras..................................................................................................... 2
Sut i wneud cais ................................................................................................... 3
Gwneud cais drwy gystadleuaeth agored a theg (chwe swydd)............................. 3
Gwneud cais fel enwebai (dwy swydd) .................................................................. 3
Canllawiau i bob ymgeisydd.................................................................................. 4
Datganiad amrywiaeth............................................................................................ 4
Cysylltu.................................................................................................................. 5
Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor ................................................ 6
Manyleb y person.................................................................................................. 6
Gofynion cymhwystra............................................................................................. 7
Meini prawf anghymhwyso..................................................................................... 7
Gwrthdaro buddiannau........................................................................................... 8
Diwydrwydd dyladwy.............................................................................................. 8
Safonau mewn bywyd cyhoeddus........................................................................... 8
Atodiad B: Rôl a Chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg...................................... 9
Beth yw’r Cyngor?.................................................................................................. 9
Beth mae’r Cyngor yn ei wneud? ............................................................................ 9
Beth yw rôl y Cyngor?............................................................................................. 9
Atodiad C: Y broses ddethol .................................................................................. 11
Ymholiadau .......................................................................................................... 12
Os nad ydych yn hollol fodlon ............................................................................... 12

## Swyddi gwag ar gyfer aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg

Mae'n rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg gael 14 aelod, gyda phob un ohonynt yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Caiff saith aelod eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg ac fe benodir saith aelod yn dilyn enwebiadau gan sefydliadau a restrir yn Atodlen 2 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Penodiadau ac Aelodaeth) (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd.

Bydd cyfnodau aelodau presennol y Cyngor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023. Yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cytuno i ailbenodi chwech o'r aelodau presennol. Felly, mae'r Gweinidog yn ceisio llenwi chwe swydd wag drwy gystadleuaeth agored a theg a dwy swydd wag drwy enwebiad.

### Ffeithiau allweddol am y swyddi

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Bydd angen cyfuniad o fod yn bresennol yn bersonol ac yn rhithiol. Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd a chynhelir cyfarfodydd rhithiol drwy Microsoft Teams. |
| Ymrwymiad amser: | Mae angen ymrwymiad amser o hyd at 12 diwrnod y flwyddyn. |
| Hyd y penodiad: | Bydd pob penodiad yn dechrau ar 1 Ebrill 2023 am pedwar blwyddyn. |
| Cydnabyddiaeth ariannol: | Ni fydd aelodau'n cael eu talu am eu gwasanaethau ond bydd costau teithio a chynhaliaeth yr eir iddynt yn cael eu had-dalu.<br><br>Gall aelodau'r cyngor sy'n hunangyflogedig neu mewn cyflogaeth dan gontract lle mae cyflenwi ychwanegol yn cael ei drefnu gan y cyflogwr (am gost ychwanegol iddynt) hawlio cyfradd ddyddiol sefydlog i hwyluso rhyddhau'r aelod. |
| Hyfforddiant cynefino: | Mercher 19 Ebrill 2023 |

### Amserlen fras

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 31 Hydref 2022 am 16:00 |
| Dethol y rhestr fer: | diwedd Tachwedd 2022 |
| Cyfweliadau: | dechrau Ionawr 2023 |

## Sut i wneud cais

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am rôl yr aelodau a manyleb yr unigolyn, rôl a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r broses ddethol. Sicrhewch eich bod yn darllen yr holl nodiadau canllaw hyn, gan roi sylw penodol i'r meini prawf cymhwystra ac anghymhwyso yn Atodiad A.

**Gwneud cais drwy gystadleuaeth agored a theg (chwe swydd)**

I wneud cais, ewch i'r dudalen penodiadau cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif. Unwaith i chi gofrestru, byddwch yn gallu mynd at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

**Gwneud cais fel enwebai (dwy swydd)**

Os ydych wedi cael eich enwebu i wneud cais gan unrhyw un o'r sefydliadau a restrir yn Atodlen 2, mae'r broses ymgeisio ychydig yn wahanol. Gofynnwn i ymgeiswyr sydd wedi'u henwebu i gyflenwi'r wybodaeth drwy e-bost yn hytrach na thrwy'r system ar-lein. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnom yr un fath â thrwy'r system ar-lein, ond gofynnir i chi roi manylion y sefydliad sydd wedi eich enwebu. Mae'n rhaid i'r sefydliad enwebu gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau eich bod wedi cael eich enwebu ganddynt. Byddant hefyd yn anfon ffurflen atoch i'w chwblhau. Dylid e-bostio'r ffurflen at ApwyntiadauCGA@llyw.cymru, ynghyd â'ch datganiad personol a CV.

Os ydych yn dewis peidio â gwneud cais trwy'r llwybr hwn, rhowch wybod i'r person sy'n eich enwebu. Fel cwrteisi i'r rhai sy'n enwebu rhywun i ymgeisio, byddwn yn cadarnhau iddynt enwau'r rhai sydd wedi ymgeisio.

Nid yw gwneud cais trwy'r llwybr hwn yn eich atal rhag gwneud cais yn y gystadleuaeth agored a theg. Mae croeso i chi lenwi'r ffurflen gais ar-lein, neu os yw'n well gennych, nodwch yn eich e-bost yr hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y ddau lwybr.

**Canllawiau i bob ymgeisydd**

Bydd angen i bob ymgeisydd lenwi ffurflen (ar-lein ar gyfer cystadleuaeth agored a dogfen Word ar gyfer enwebiadau). Dylai'r ceisiadau gynnwys datganiad personol a CV.

Y ***datganiad personol*** yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person.  Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi yn y broses o gyflawni amcan penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Mae'r datganiad personol wedi'i gyfyngu i ddwy dudalen a gall eich cais gael ei wrthod os ydych yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn. Fodd bynnag, sicrhewch eich bod yn cynnwys datganiad am sut rydych yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ac anghymhwyso a nodir yn Atodiad A.

Sicrhewch fod eich ***CV*** yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon). Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol cyfredol neu yn y gorffennol a manylion eich cofrestriad â Chyngor y Gweithlu Addysg, os yn berthnasol.

## Datganiad amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru'n annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Yn gadarn o blaid pobl anabl**

Rydym yn gweithredu o dan gynllun Positif am Bobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef "nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd".

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Bydd y ffurflen gais yn gofyn a hoffech gael eich ystyried o dan y cynllun Positif am Bobl Anabl. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i chi roi gwybod i ni am unrhyw addasiadau rhesymol y gall fod eu hangen arnoch chi ganiatáu i chi fynychu cyfweliad.

## Cysylltu

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am y broses ddethol neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch i wneud cais am y rolau hyn, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i wneud cais, e-bostiwch penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Gyngor y Gweithlu Addysg a rôl yr aelodau cysylltwch â Hayden Llewellyn (Prif Weithredwr y Cyngor) neu Beverley Curtis (Swyddog Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor). Gallwch gysylltu â nhw dros y ffôn (029 2046 0099) neu e-bost (llywodraethu.corfforaethol@cga.cymru).

## Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor 14 aelod gan gynnwys y Cadeirydd. Etholir y Cadeirydd o blith ei aelodaeth yn unol â Deddf Addysg (Cymru) 2014 a Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae aelodau'n cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau'r gweithlu addysg yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg ac yn gyfrifol am ei lywodraethu.

Mae disgwyl i aelodau'r Cyngor gyflwyno barn annibynnol i ysgwyddo strategaeth, perfformiad ac atebolrwydd y Cyngor. Rhaid i aelodau weithredu'n gorfforaethol er budd y Cyngor sydd yn ei dro yn gweithredu er budd ehangach ymarferwyr cofrestredig, dysgwyr a'r cyhoedd yn hytrach nag er budd etholaeth benodol. Dylai aelodau wneud penderfyniadau er budd y Cyngor heb ffafrio unrhyw fudiad neu gymdeithas, boed yn addysgol neu fel arall.

Rhaid i'r aelodau gofio bob amser yr angen am onestrwydd ym mhob peth y maent yn ei wneud. Mae gan aelodau gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus a'i incwm o'r ffioedd cofrestru.

Mae disgwyl i bob aelod gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau'r Cyngor. At hynny, fel y pennir ym mharagraff 3(5) o Atodlen 1 Deddf Addysg (Cymru) 2014, mae aelodau'r Cyngor yn gweithredu fel unigolyn ac nid fel cynrychiolydd unrhyw sefydliad neu gorff y maent yn perthyn iddo, nac unrhyw berson, sefydliad neu gorff a'u henwebodd.

### Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Y ***meini prawf*** hanfodol bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos i'r panel dethol yw:

1. dealltwriaeth o swyddogaethau ac amcanion strategol Cyngor y Gweithlu Addysg, a blaenoriaethau ei randdeiliaid.
2. y gallu i ddarllen a dadansoddi dogfennau a chyfrannu at drafodaethau ar lefel strategol.
3. cyfathrebu effeithiol, gan arddangos y gallu i wrando, dylanwadu a herio'n adeiladol.
4. y gallu i feithrin perthynas a gweithio effeithiol fel rhan o dîm, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn cydweithwyr.
5. ymrwymiad i faterion cydraddoldeb, ac adnabod a herio arferion gwahaniaethu.
6. dealltwriaeth o ac empathi tuag at y Gymraeg ac ymrwymiad i gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg.
7. ymrwymiad i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan a'r egwyddorion ychwanegol a amlinellir yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

**Cyngor y Gweithlu Addysg**

Mae'r EWC wedi ymrwymo i hybu'r Gymraeg ac yn cadw at Safonau'r Gymraeg. Felly, mae'n ***ddymunol*** i ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg i ymgymryd â dyletswyddau aelod o'r Cyngor.

**Gofynion cymhwystra**

I gydymffurfio â'r gofynion sy'n rheoli'r penodiadau i Gyngor y Gweithlu Addysg, a nodir yn Rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014, nid yw unrhyw berson yn gymwys i gael ei benodi:

(a) pan fo'r person wedi'i wahardd o weithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

(b) pan fo'r person wedi'i wahardd rhag addysgu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002;

(c) pan fo'r person wedi'i wahardd rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes yn rhinwedd gorchymyn gwahardd o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002;

(d) pan wneir gorchymyn disgyblu mewn cysylltiad â'r person o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1998 a bod y person yn dod yn anghymwys i'w gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwnnw;

(e) pan wneir gorchymyn disgyblu mewn cysylltiad â'r person o dan adran 26(3) o Ddeddf 2014 a bod y person yn dod yn anghymwys i'w gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwnnw;

(f) pan fo'r person wedi'i anghymwyso rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol yn rhinwedd gorchymyn sydd wedi'i wneud -

   a. gan Dribiwnlys Ysgolion Annibynnol o dan adran 470 o Ddeddf 1996, neu

   b. gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 471 o Ddeddf 1996; neu

(g) pan fo'r person yn anghymwys i gofrestru fel athro neu athrawes, neu wedi'i anghymwyso rhag bod yn athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

**Meini prawf anghymhwyso**

Nodwch, rydych wedi'ch anghymhwyso rhag gwneud cais os ydych:

(a) wedi'ch cael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'ch dedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;

(b) yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdalu neu orchymyn cyfyngiadau methdalu dros dro neu wedi gwneud compownd neu drefniant gyda chredydwyr;

(c) wedi cael penodiad cynharach gyda Chorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru wedi'i derfynu ar y sail nad oedd yn ffafriol i fuddiannau na rheolaeth dda y corff i chi barhau i ddal y swydd.

(d) yn ddarostyngedig i orchymyn anghymwyso o dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodaeth y Cyngor Gweithlu Addysg yn eich anghymhwyso rhag bod yn aelodau o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Yn ogystal, dylech fod yn ymwybodol bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â pharagraff 3(4) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, wrth arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor —

(a) roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod yr aelodaeth honno yn cynnwys personau â'r profiad a'r sgiliau y mae eu hangen i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol, a

(b) sicrhau bod y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn bersonau cofrestredig, neu wedi bod yn bersonau cofrestredig yn ddiweddar.

## Gwrthdaro buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro, neu roi argraff o wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau aelod o Gyngor y Gweithlu Addysg, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar y Cyngor.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac a gyhoeddir ar wefan CGA.

## Diwydrwydd dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy’n llwyddo i gael cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys ond nid o reidrwydd yn cael ei gyfyngu i chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau o’r gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Bydd pob swydd yn destun fetio at ddibenion diogelwch.

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.

# Atodiad B: Rôl a Chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg

**Beth yw'r Cyngor?**

Cyngor y Gweithlu Addysg yw rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru. Gyda dros 80,000 o gofrestriadau, dyma gorff rheoleiddio mwyaf Cymru ac mae ganddo'r gofrestr ehangaf o ymarferwyr addysg yn y byd.

Prif amcanion Cyngor y Gweithlu Addysg yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru;
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phersonau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru; a
- diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

**Beth mae'r Cyngor yn ei wneud?**

Prif swyddogaethau'r Cyngor yw:

- sefydlu a chynnal Cofrestr Ymarferwyr Addysg;
- cadw Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg;
- ymchwilio i, a gwrando ar, honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai fwrw amheuaeth ar briodoldeb ymarferydd i ymarfer;
- achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a monitro eu cydymffurfiaeth â meini prawf cenedlaethol;
- darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill ynghylch materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu addysg ac addysgu a dysgu;
- monitro sefydlu a gwrando ar apeliadau sefydlu (lle y bo'n berthnasol) ar gyfer athrawon;
- hybu gyrfaoedd yn y gweithlu addysg;
- ymgymryd â gwaith penodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu ar gais Llywodraeth Cymru.

**Beth yw rôl y Cyngor?**

Yn unigol, a gyda'i gilydd, disgwylir i aelodau'r Cyngor:

- sicrhau y caiff safonau uchel eu cadw bob amser o ran gweinyddu a gwneud penderfyniadau;
- rhoi trywydd strategol cyffredinol i'r Cyngor drwy oruchwylio'r gwaith o lunio'r Cynllun Strategol;
- sicrhau'r canlyniadau disgwyliedig drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt;

- sicrhau nad yw'r Cyngor yn gweithredu tu hwnt i'w bwerau a'i swyddogaethau, boed wedi'u diffinio'n statudol neu fel arall, neu unrhyw gyfyngiadau ar wariant a nodir yn nhelerau ac amodau ariannol Llywodraeth Cymru;
- gweithredu'n annibynnol fel unigolion a bod yn ymwybodol o beidio â chyfleu barn eu cyflogwyr/sefydliadau y mae ganddynt gysylltiad â hwy.
- parchu penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor yn gyhoeddus. Rhaid i'r aelodau weithio'n gyfrifol gydag aelodau eraill a rhaid iddynt drin ei gilydd gyda chwrteisi a pharch i hybu perthynas weithio adeiladol.

Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg y pwyllgorau sefydlog canlynol, sy'n cynnwys aelodau'r Cyngor:

- Pwyllgor Gweithredol;
- Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio
- Pwyllgor Archwilio a Chraffu

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am waith y Cyngor drwy anfon e-bost at gwybodaeth@cga.cymru neu drwy fynd i http://www.cga.cymru

# Atodiad C: Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, ac yn cynnwys cyfeiriad at sut yr ydych yn bodloni meini prawf cymhwystra a manylion unrhyw gofrestriad cyfredol neu yn y gorffennol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Claire Horton, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Angela Jardine, Cadeirydd CGA a David Pritchard, Gofal Cymdeithasol Cymru fel Aelod Annibynnol o'r Panel. Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Tachwedd 2022 pwy fydd yn cael eu gwahodd ar gyfer cyfweliad ym mis Ionawr 2023. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ar-lein trwy Microsoft Teams.

Mae'n bosibl y bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr hir, yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a geir, cyn ei drosglwyddo i banel y rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweliad y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweliad, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu pryd bydd y panel dethol ar gael.

Byddwch yn derbyn neges e-bost gan ganolfan eisiadau Llywodraeth Cymru, neu o ApwyntiadauCGA@llyw.cymru, i roi gwybod i chi a ydych wedi cael gwahoddiad i gael eich cyfweld.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio. Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn penderfynu. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddo mewn cyfweliad, byddwch yn derbyn llythyr gan y Gweinidog yn eich penodi'n aelod o'r Cyngor. Bydd hyn yn cadarnhau'r telerau y mae'r penodiad yn cael ei gynnig arnynt.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd  Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Bydd hyn naill ai drwy'r ganolfan ymgeisio os gwnaethoch gais ar-lein neu drwy e-bost gan ApwyntiadauCGA@llyw.cymru os cawsoch eich enwebu i wneud cais. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y e-bost yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais.

**Ymholiadau**

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

**Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru. Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Office of the Commissioner for Public Appointments
G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.
.